

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**08456 000 813**

## **Rhwydwaith Arddangos**

Gwerthuso effeithiolrwydd ysgall y meirch  
mewn systemau defaid yng Nghymru

## **Cynhadledd Ffermio Cymru**

Darganfyddwch beth sydd  
ymlaen 1-5 Chwefror 2021



# CYNHADLEDD



## 1 – 5 Chwefror 2021


Gofalwch na fyddwch yn colli unrhyw ran o Gynhadledd Ffermio Cymru 2021. Eleni, bydd y drysau rhithiol ar agor rownd y cloc i chi wrando a gwylio pan fydd hynny'n gyfleus i chi, a hynny o'ch cartref.

Bydd cyfres o gyflwyniadau 20 munud o hyd, gwerth eu gweld yn ysbrydoli ac yn rhoi gwybodaeth wrth i chi weld a chlywed y prif areithwyr yn trafod amrywiaeth eang o themâu. Disgwyliwch gael eich hysbrydoli yn bersonol ac ar lefel busnes.

### SUT I GOFRESTRU

Ewch i wefan Cyswllt Ffermio i ddod o hyd i'r ffurflen gofrestru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru i gael dolen i holl sesiynau'r gynhadledd. Fel arall, os oes gennych broblemau ymgysylltedd ffoniwch ni ar **08456 000 813** i archebu recordiad DVD.

**#cynhadleddffermiocymru**



## Siaradwyr:



**LESLEY GRIFFITHS AS,**  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
**Creu sector amaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**

Hoffai'r Gweinidog ddiolch i'n ffermwyr am fwydo'r genedl, sicrhau bod cymunedau gwledig yn dal i ffynnu ac am ddiogelu busnesau teuluol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Gweinidog hefyd yn edrych tua'r dyfodol a bydd yn amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd Cymru.



**OLLIE OLLERTON**  
**Chi yw'r prosiect pwysicaf!**

Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arbennig gyda'r SAS a'r SBS, mae Ollie wedi bod ar ymgyrchoedd mewn rhai o'r lleoliadau peryclaf a mwyaf pellennig ar y blaned ac mae'n un o'r ymladdwyr sydd wedi ei hyfforddi orau yn y byd. Ar ôl 13 mlynedd dramor dychwelodd adref a dechreuodd ddatblygu cysyniad a fyddai'n defnyddio ei flynyddoedd o hyfforddiant a phrofiad ac a fyddai o fudd i eraill. Wedi'i ddatblygu trwy arbenigedd Lluoedd Arfog, mae dull Ollie i ddatblygiad personol yn anelu i newid y ffordd yr ydym yn meddwl, y ffordd yr ydym yn teimlo ac yn perfformio.



**ANDY FOX**  
**Deugain o awgrymiadau ar gyfer cyfnod cythryblus - Pan fydd y llwybr yn mynd yn anodd...dyna yw bywyd!**

Brexit, pandemig, tywydd eithafol a'r ffaith bod dirwasgiad ariannol sydd y gwaethaf ers 300 mlynedd – nid yw'n syndod bod llawer ohonom yn teimlo dan bwysau! Mae Andy Fox yn ffermio fferm biff a defaid 1,600 hectar yn Hurunui, Seland Newydd, sydd wedi bod yn y teulu ers pedair cenhedlaeth. Yn ystod y deg mlynedd ar hugain diwethaf, wrth iddo dystio i'r llanastr a achoswyd gan amryw o gyfnodau o sychder a daeargryn anferth, mae wedi datblygu ei strategaethau ymdopi rhyfeddol ei hun. Yn y cyflwyniad yma, bydd Andy yn rhannu rhywfaint o'i brofiad personol a'r hyn y mae wedi ei ddysgu y mae'n dweud y gallwn ni i gyd ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd gwaith a phersonol. Pa bynnag amseroedd caled sydd o'n blaenau, bydd awgrymiadau ymarferol a hwyliog Andy yn ein helpu i ddod trwyddyn nhw!



## ALEX THOMAS

### Heuwch Hedyn Diogelwch

Gair caled yw cydymffurfriad. Mae cydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith yn aml yn cael ei gysylltu â pholisïau, cosbau a chyfarpar diogelu personol. Mae'n rhoi'r argraff o fod yn gostus, cymhleth ac yn cymryd llawer o amser - er hyn rydym yn anghofio - mai bwriad cydymffurfriad yn syml yw: i arbed bywydau. Wrth ganolbwyntio ar storïau personol, mae'r cyflwyniad hwn yn anelu i newid y ffocws o 'dicio blychau' i rymuso pobl, rheoli risg, ac yn y pen draw atal pobl rhag anafu neu gael eu lladd o fewn diwydiannau gwledig.



## DR JONATHAN BIRNIE

### 21 yn 21 mewn 21

Mewn 21 munud, bydd Jonathan Birnie yn rhannu 21 o ffeithiau ar sut i gynnal busnes yn 2021.



## IORWERTH WILLIAMS

### Trafodaeth am dreth dros baned

Bydd Iorwerth Williams, Cyfrifwyr Dunn ac Ellis yn dweud popeth y mae arnom 'angen' ei wybod am dreth yn yr amser a gymer i yfed cwpaned o de!

### Geni yn ffermwr neu eni ar fferm?

Ffermwyr o'r genhedlaeth gyntaf sy'n rhedeg busnesau llwyddiannus yn rhannu'r hyn sydd yn eu hysgogi a'u gyrru yn eu blaenau, gan gynnig gwersi gwerthfawr i berchenogion ddeiliaid neu ffermwyr y genhedlaeth nesaf sy'n olyn eu rhieni ar fferm.

**RHUN WILLIAMS** - Ffermwr bîff a defaid cenhedlaeth gyntaf  
**MATTHEW JACKSON** - Ffermwr llaeth cenhedlaeth gyntaf  
**RHIDIAN GLYN** - Ffermwr bîff a defaid cenhedlaeth gyntaf



Llun: AHDB



## ALEX CARSON-TAYLOR FRGS

### Byd dewr newydd? Oblygiadau gadael yr UE i'r sector bwyd-amaeth

Mae Alex yn arbenigwr masnach rhyngwladol sy'n gweithredu ar draws y sector bwyd-amaeth a bydd yn darparu diweddariad amserol am y berthynas fasnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn diwedd y cyfnod trosglwyddo yn Rhagfyr 2020, ein cytundebau gyda gwledydd eraill a sut y gallwn ddatblygu cyfleoedd masnach yn y dyfodol i'r sector.



## YR ATHRO ALICE STANTON

### Ychydig o wyddoniaeth

Beth yw'r dystiolaeth ddiweddaraf am fwydydd o anifeiliaid? A ydyn nhw'n niweidiol neu'n fanteisiol i iechyd dynol?

Bydd yr Athro Alice Stanton yn trafod data a gyhoeddwyd yn ddiweddar am ddiet iach, gan gynnwys rôl bwydydd sy'n tarddu o anifeiliaid. Bydd yn dangos y dystiolaeth y gall bwyta cig a chynnyrch llaeth yn gymedrol gael effeithiau cadarnhaol pwysig ar iechyd. Bydd hefyd yn sôn am yr angen am wybodaeth glir am faeth a chynaliadwyedd ar labeli pecynnau.



## SOPHIE COLQUHOUN

### Gwerth Cymreictod a'r hyn y bydd siopwyr y dyfodol ei angen

Wrth i ni ffarwelio â 2020 a chroesawu 2021 mewn byd o fath hollol newydd, bydd Sophie Colquhoun, gyda'r ddealltwriaeth a gynigwyd gan dîm Bwyd a Diod Cymru Llywodraeth Cymru, yn sôn am y ffordd y mae'n bywydau yn newid, anghenion siopwyr y dyfodol a'r cyfleoedd a'r heriau y mae hynny'n eu dwyn.



## ANNE VILLEMOS

### Rheoli Enw Da – o'r giât i'r plât

A ydym yn cynaeafu porc neu yn lladd moch? A ydym yn ffermwyr neu yn gynhyrchwyr bwyd? A ydym yn rhan o'r broblem – neu'n rhan o'r ateb? Mae'r cyfan yn dibynnu ar bwy sy'n gofyn ac, wrth gwrs, ar bwy sy'n ateb. Mewn byd lle mae bwyd yn chwarae'r rhan bwysicaf efallai yn y pegynnu cynyddol rhwng gwledydd, diwylliannau a safonau byw, mae'r amgylchedd yn aml yn drech na'r ffeithiau. Ar ddiwedd y dydd, enw da a chanfyddiad sy'n penderfynu a fydd busnes yn ffynnu neu beidio.

**Safle Arddangos:** Fferm Pentre, Pentrecelyn, Rhuthun, Sir Ddinbych

**Swyddog Technegol:** Non Williams

**Teitl y Prosiect:** Gwerthuso effeithiolrwydd ysgall y meirch mewn systemau defaid yng Nghymru

**Cyflwyniad i'r Prosiect:**

Mae cynnwys ysgall y meirch mewn systemau pori fel cnwd porthiant i anifeiliaid yn cynyddu yn ei boblogrwydd. Awgrymodd astudiaethau blaenorol y gall cynnwys ysgall y meirch mewn cymysgedd porfa gynnig nifer o fanteision, fel cynyddu'r pwysau byw y mae'r ŵyn yn ei ennill a gwell cyflenwad o ficrofaetholion. Ond, mae gwybodaeth am hyn o ran systemau defaid Cymru yn parhau yn eithaf prin.

Nod y prosiect hwn yw pennu effeithiolrwydd cynnwys ysgall y meirch yn y gwndwn o ran perfformiad yr ŵyn, ansawdd y gwndwn a'r diet, a'r baich o barasitiaid mewnol.

**Sefydlu a chasglu data**

Ail-hadwyd tua 1.82 hectar (ha) o dir gyda chymysgedd safonol ar sail rhygwellt gan gynnwys meillion, ac 1.76 hectar arall wedi eu hau â chymysgedd laswellt yn cynnwys ysgall y meirch. Rhoddwyd yr ŵyn mewn grwpiau i bori'r ddwy driniaeth, gyda system bori cylchdro yn cael ei gweithredu.

Roedd y gwaith casglu data yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect yn cynnwys:

- Pwyso'r ŵyn yn gyson i bennu eu cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG)

- Profi gwaed sampl o'r ŵyn ym mhob grŵp ar ddechrau a diwedd y cyfnod pori i fonitro crynodiadau cobalt, copr a seleniwm
- Ansawdd a swmp y borfa
- Cyfrif wyau ysgarthol (FEC) i fonitro'r baich o barasitiaid mewnol


**Deilliannau Cychwynnol**

Mae deilliannau cychwynnol y prosiect (blwyddyn 1) yn dangos bod cyfartaledd cynnydd pwysau byw dyddiol yr ŵyn ar hyd y cyfnod pori yn uwch i'r ŵyn oedd yn pori'r borfa yn cynnwys ysgall y meirch (193g y dydd) mewn cymhariaeth â'r rhai oedd yn pori'r borfa rhygwellt (168g y dydd).

Dangosodd canlyniadau'r profion gwaed cychwynnol bod crynodiadau cobalt (fitamin B12), copr a seleniwm (GSH-Px) yn foddhaol ar gyfer y ddau fath o borfa ar ddechrau'r cyfnod pori. Dangosodd y profion gwaed dilynol ar ddiwedd y cyfnod pori bod y crynhoad o gopr wedi codi yn yr ŵyn oedd yn pori'r borfa gydag ysgall y meirch. Rhoddir sylw i sicrhau na fydd y cynnydd yn y copr yn arwain at broblemau iechyd yn ystod ail flwyddyn y prosiect.

**Amcanion ar gyfer yr ail flwyddyn:**

- Ehangu'r system bori cylchdro trwy rannu'r plotiau ymhellach.
- Anelu at gael cyfartaledd cynnydd pwysau byw dyddiol o 300g.



Am ragor o wybodaeth am y gwaith a wneir ar safle arddangos Fferm Pentre, ewch i: [llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd](http://llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd)

**Safle Arddangos:** Graig Olway, Brynbuga

**Swyddog Technegol:** Gwenan Evans

**Teitl y Prosiect:** Ystyriaethau technegol wrth wella isadeiledd

**Cyflwyniad:**

Mae'r uned laeth yn Graig Olway yn cynnwys 160 o fuchod godro gyda thri robot, a 70 o fuchod magu ar giwbyclau gyda thywod â'r stoc ifanc yn cael eu cadw ar wellt dwfn. Nod Russell Morgan yw cynyddu'r fuches i tua 250 o bennau a gosod robot arall. Un o'r prif rwystrau a nodwyd oedd cyfaint y lagŵn slyri na fydd yn ddigon i ddal y slyri dros ben, felly, mae hynny'n atal cynllun Russell i gynyddu ei fuches odro.

Bydd cael storfa slyri ddigonol ac wedi ei chynnal yn dda ar y fferm gyda'r lle i ddal gwerth chwe mis o slyri yn galluogi ffermwyr i dargedu chwalu tail naturiol i gyfateb â gofynion y cnydau o ran maetholion, yn hytrach na phan fydd y storfeydd yn llawn. Trwy ganolbwyntio ar chwalu yn ôl gofynion y cnwd, gall y nitrogen a gymerir i mewn gael ei gynyddu a'r ddibyniaeth ar wrtaith artiffisial leihau.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol: Cynyddu'r fuches odro o 50 buwch a stoc cyfnewid yn ychwanegol**

Bydd y cyfrifiadau ar gyfer y storfa slyri newydd arfaethedig yn cynnwys y gallu i gynyddu'r fuches odro i 300 o fuchod a 200 o fuchod biff. Ar hyn o bryd, y cyfaint storio angenrheidiol yw 4,231 m<sup>3</sup> i gael digon o le i

storio 5 mis o slyri, bydd angen 599m<sup>3</sup> arall ar gyfer 500 o fuchod (140 yn ychwanegol o fuchod godro a 200 o fuchod biff), sy'n golygu y bydd y gofyn storio yn y dyfodol yn 4,830m<sup>3</sup>.

**Nod:**

Amcan allweddol y prosiect hwn yw ymchwilio i'r dewisiadau a chatau i'w hystyried wrth gynyddu cyfaint storio slyri. Bydd ADAS yn rhoi argymhellion o ran gwaith gwella i'r isadeiledd presennol a fydd yn diogelu unrhyw gyrsiau dŵr gerllaw a chynnig rhaglen o ddatrysiadau economaidd ymarferol i'r sefyllfa bresennol. Bydd Eoin Murphy o ADAS yn ymweld â'r fferm i archwilio beth yw'r ffordd orau i wella'r cyfaint storio slyri, gan ganolbwyntio ar:

- Leihau faint o ddŵr glân sy'n rhedeg i'r storfa slyri
- Ystyriaethau wrth ddewis safle
- Bodloni rheoliadau cynllunio a gwarantu adeiladau

Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r broses o gynyddu cyfaint storio slyri, o reoli dŵr i addasrwydd y safle. Yn ôl ffigyrau DairyCo, mae'r glawiad blyneddol tua 1,059mm yn yr ardal, a byddai disgwyl i 524mm ddisgyn yn ystod y pum mis gwaethaf yn y gaeaf. Mae llawer iawn o ddŵr yn cyrraedd y lagŵn slyri presennol gan gynnwys dŵr o olchi'r parlwr a iardiau budr sydd yn cynyddu'r cyfaint o slyri yn ddiangen.



Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle arddangos Graig Olway, ewch i: [llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd](http://llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd)

**Safle Arddangos:** Pendre, Llanfihangel y Creuddyn, Aberystwyth

**Swyddog Technegol:** Lisa Roberts

**Teitl y Prosiect:** Effaith pori cylchdro ar gynnwys organig pridd

## Cyflwyniad i'r Prosiect:

Mae deunydd organig yn y pridd yn storio carbon. Wrth i'r cynnwys organig mewn pridd gynyddu, mae'n storio carbon o'r atmosffer. Yn ogystal â bod yn storfa i garbon, mae cynnwys organig y pridd yn bwysig o ran ffrwythlondeb gan ei fod yn lleihau'r golled o ran maetholion trwy drwytholchi ac yn gwella gallu'r pridd i wrthsefyll erydu.

Bydd deunydd organig yn casglu yn y pridd wrth i blanhigion marw bydr. Gall y deunydd hwn fod ar ffurf dail ac egin yn pydru ar wyneb y ddaear yn mynd i'r pridd, gwreiddiau yn pydru yn y pridd a thail cilgnöwyr yn pydru.

**Mae pori cylchdro yn llesol o ran cynyddu cynnwys organig mewn pridd oherwydd y rhesymau canlynol:**

- Mae'n hyrwyddo mwy o dyfiant glaswellt sy'n cynhyrchu mwy o ddeunydd planhigion i'w ailgylchu yn y pridd;
- Mae'r cyfnod gorffwys y mae pori cylchdro yn ei gynnig yn rhoi cyfle i gyfartaledd tyfiant y glaswellt fod yn dalach. Talaf yn y byd yw'r glaswellt, dyfnaf yn y byd fydd y gwreiddiau sy'n gadael i'r cynnwys organig gynyddu yn ddyfnach yn y pridd;
- Mae'r dwyster pori a gynigir gan bori cylchdro yn achosi mwy o sathru ar y planhigion i mewn i'r pridd;
- Mae'r dwyster pori a gynigir gan bori cylchdro yn achosi i dail anifeiliaid gael ei wasgaru yn ehangach.

Mae astudiaethau eraill yn dangos canlyniadau ffafriol sy'n profi y gall pori gwartheg mewn cylchdro wella cynnwys organig y pridd, ond, mae'r astudiaethau yn brin ar gyfer pori defaid mewn cylchdro. Mae'r prosiect hwn yn anelu at werthuso manteision pori defaid mewn cylchdro, mewn cymhariaeth â phori sefydlog, o ran cynnwys organig y pridd.

Mae Tom Evans, sy'n ffermio Pendre, eisoes wedi dynodi manteision pori cylchdro o ran cynyddu dwyster stocio a'r defnydd o laswellt, ac mae'n rhan o Brosiect Porfa Cymru sy'n monitro tyfiant glaswellt ar 41 o ffermydd ar draws Cymru.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- Gwella cynnwys organig pridd o 0.5% mewn 0-150mm a 0.2% mewn 150-400mm ar hyd y prosiect
- Gwella cynhyrchiant y fferm (kg/ha) o 25%
- Gwella tyfiant glaswellt (kgDM/ha) o 25%



*Ffigwr 1. Tom Evans yn cynnal gwerthusiad gweledol o strwythur y pridd.*

## Y Diweddaraaf am y Prosiect:

Cynhaliwyd asesiad cychwynnol o iechyd y pridd ar ddwy ran o'r fferm a fydd yn cael eu rheoli yn wahanol dros gyfnod y prosiect. Bydd un adran yn cael ei stocio yn sefydlog yn bennaf tra bydd pori cylchdro dwys ar yr adran arall. Roedd yr asesiad iechyd yn cynnwys prawf labordy am faetholion pridd a chynnwys organig ar ddyfnderoedd gwahanol, prawf treiddiad dŵr ac asesiad gweledol manwl sy'n cynnwys asesiad o strwythur y pridd, dyfnder gwreiddiau'r planhigion, anaerobedd a gweithgaredd pryfed genwair.

Wrth archwilio pridd, gall ei liw roi rhyw syniad o iechyd y pridd gyda smotiau rhydlyd yn arwydd o ddraeniad gwael. Bydd pridd uchaf yn llawn o gynnwys organig yn dywyll. Dylai gwreiddiau mewn pridd iach sy'n draenio'n dda gyrraedd dyfnder o dros 30cm a dylid gweld tua 10-15 o bryfed genwair mewn ciwb o bridd wedi ei dorri gyda rhaw safonol. Dylai sianeli fertigol fod yn y pridd rhwng blociau pridd, a chraciau llorweddol yn y parthau cywasgu.

Mae'r arbenigwr prosiect Rhys Williams o Precision Grazing Ltd yn edrych ymlaen at gael y canlyniadau. "Fel ffermwyr, mae gennym gyfrifoldebau amgylcheddol sy'n cael eu hamlygu yn gynyddol. Mae ein priddoedd yn adnodd gwerthfawr. Mae budd cynhyrchu ac amgylcheddol yn deillio o wella iechyd y pridd, a thrwy wneud hynny gynyddu'r cynnwys organig. Yma ar fferm Pendre, rydym yn gobeithio dangos y gall pori wedi ei reoli wella iechyd y pridd a chyfrannu at system ffermio sy'n negyddol o ran carbon."

Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle arddangos Pendre, ewch i: [llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd](http://llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd)



# Tyfu betys porthiant yn llwyddiannus ar ffermydd Cymru yn dibynnu ar agronomeg dda

**Mae cael y cynnyrch gwreiddiau a dail mwyaf mewn cnydau pori o fetys porthiant yn dibynnu ar agronomeg dda, mor fuan â blwyddyn cyn i'r hadau gael eu hau hyd yn oed.**

Mae betys porthiant yn ffynnu ar leiafswm pH o 6.5 a gyda lefel dda o ffosffad a photash (P a K) ac felly mae angen profi'r pridd a'i gywiro ddigon cyn hau, dywed yr agronomegydd Rhys Owen.

*"Maethiad y pridd sy'n allweddol,"* dywedodd Mr Owen wrth ffermwyr mewn gweminar a drefnwyd gan Cyswllt Ffermio ar y cyd â Field Options, KWS a Momont.

Gall cnydau a dyfir ar ffermydd Cymru gynhyrchu rhwng 20-30 tonnall o gynnwys sych yr hectar ond i gyflawni hynny rhaid i bob cam yn ei dyfiant, popeth o baratoi'r gwely hadau a'r math o hadau i reolaeth ar chwyn a phlâu a maethiad y cnwd, fod ar eu gorau.

Er mwyn iddo gael ei ddefnyddio yn llwyddiannus wrth ei bori, rhaid i 45-55% o'r bwlb fod yn y golwg, felly dewiswch fath o hadau sy'n cyflawni hyn.

Mae'n bwysig hefyd hyrwyddo'r dail i dyfu'n gynnar. *"Ceisiwch ddal cymaint o haul â phosibl ym misoedd yr haf i'w droi yn gynnyrch,"* meddai Mr Owen, o'r arbenigwyr hadau Field Options.

*"Trwy gael y gwreiddiau i ddatblygu'n gynnar bydd y planhigion yn gallu cael mynediad at faetholion yn y pridd."*

Mae Mr Owen yn argymhell tyfu mewn priddoedd ysgafn a chanolig, sy'n draenio'n rhwydd – nid yw betys porthiant yn gwneud yn dda mewn priddoedd wedi eu cywasgu.

Dylid osgoi caeau ar lechwedd yn agos at gyrsiau dŵr neu eu rheoli yn ofalus.

Anelwch at wely hadau mân gyda strwythur pridd mwy agored oddi tano er mwyn i'r gwreiddiau allu sefydlu yn dda.

Heuwch pan fydd tymheredd y pridd yn 7°C ac yn codi. Edrychwch ar y map tymheredd pridd ar wefan Cyswllt Ffermio i sicrhau bod y priddoedd yn eich ardal ar dymheredd addas i hau.

Anelwch at boblogaeth o blanhigion o 90,000 – 105,000 planhigyn/ha. Er mwyn cyflawni hyn, heuwch yr hadau ar gyfradd o 100,000 – 124,000 o hadau/ha; gostyngwch y gyfradd o hadau ar gyfer defaid er mwyn sicrhau bod mwy o wreiddiau uwch ben y ddaear.

Dylai hadau gael eu drilio yn fanwl gywir gyda 45-50cm o fwllch yn y rhych, gyda 14-20cm o fwllch rhwng y rhychau; yn Seland Newydd, mae defnyddio rhychau culach wedi dangos manteision o ran cynnyrch.

Er mwyn cynorthwyo'r planhigyn i ddatblygu'n gynnar, rhwch nitrogen ar y gwely hadau ac ar ôl i'r rhychau egino.

Dywedodd Mr Owen y gall cnydau gael budd o chwalu gwrtaith yn hwyrach hefyd, pan fyddant wedi deilio yn llawn i yrru datblygiad y cynnyrch, ac yn hwyr yn Awst, cyn y cyfnodau cau Parthau Perygl Nitradau i hyrwyddo cynhyrchu gwreiddiau a dail; bydd hyn hefyd yn cynyddu cynnwys protein y ddau sy'n bwysig i berfformiad stoc sy'n pori.

Mae'r lefel hon o nitrogen yn uwch na'r hyn oedd yn cael ei ddefnyddio yn hanesyddol ar fetys porthiant.

Mae ar fetys porthiant angen llawer o botash; gall hyn gael ei gyflwyno trwy gymysgedd o ffynonellau dail organig ac anorganig. Mae angen y potash ar gyfer nifer o brosesau gan gynnwys defnyddio nitrogen, sy'n effeithio ar

brotein y cnwd, ac mae'n ofynnol hefyd ar gyfer ffurfio siwgrau yn y planhigyn.

Gan ei fod yn gnwd sy'n cael ei dyfu yn y gwanwyn, mae cyfle da i wneud y defnydd gorau o dail organig. Gall tail buarth gyflenwi swm da o'r gofynion P a K, ac os bydd ar gael, bydd tail ieir yn rhoi cyfran uwch o anghenion nitrogen y cnwd.

*"Rhaid cydbwysu hyn â gwrtaith anorganig yn y gwely hadau fel bod maetholion ar gael i'r hadau sy'n egino ac i'r cnwd o'r dechrau,"* dywedodd Mr Owen.

Mae'r cnwd angen sodiwm, sylffwr, manganês, boron a magnesiwm hefyd. Gall sodiwm gymryd lle potash i raddau i roi maeth i gnydau betys ond fe welir manteision o ran cynnyrch pan fydd y ddau yn cael eu rhoi, dywedodd Mr Owen.

Rhaid rheoli chwyn i atal colli cynnyrch – gall dim ond un chwynyn tal ym mhob metr sgwâr arwain at golli 11% o gynnyrch.

Bydd ansawdd y gwely hadau yn chwarae rhan hanfodol wrth reoli chwyn.

Gall hau cnwd torri cyn betys porthiant fod yn ddull defnyddiol o reoli chwyn. Mae'r dulliau rheoli eraill yn cynnwys gwely hadau stêl, aredig i gladdu chwyn, chwynnu mecanyddol a phlaleiddiaid cyn ac ar ôl egino.

*"Un allwedd i gael llwyddiant wrth reoli chwyn yw gweithio'n glos gydag agronomegydd profiadol a gweithredwr chwistrellwr profiadol – mae hylendid y chwistrellwr a phrydlondeb y chwalu yn allweddol,"* dywedodd Mr Owen.

Mae'r plâu amlycaf yn cynnwys gwlithod, hoelen ddaear, chwilod naid, cynrhon lledr, pryfed glas a llyngyr y betys. Gall agronomegydd wedi ei achredu gan BASIS roi'r trothwy ar gyfer pob pla a'ch hysbysu am y dulliau rheoli, gan gynnwys hadau wedi eu trin.

Mae rheolaeth fector feirws melyn yn bwysig – cadwch olwg ofalus ar y cnydau am bryfed glas, yn arbennig Pryf Glas Tatws Porfforbinc yn ystod y cyfnod egino; rhwch driniaeth i ladd pryfed glas ar ôl i'r trothwy un pryf glas heb adenydd ar bob pedwar planhigyn gael ei gyrraedd. Ar ôl i gnwd gyrraedd y cyfnod 12 deilen, yn gyffredinol mae'n gallu gwrthsefyll feirysau.

Gall afiechydon y dail leihau'r ardal o ddail gwyrdd ac arwain at golli dail, felly rhwch driniaeth cyn gynted ag y mae arwyddion o hyn a'i ddilyn trwy ail chwistrellu.

Mae cadw'r dail yn iach wrth symud tuag at fisoedd y gaeaf yn sicrhau'r cnwd ond hefyd mae'n hanfodol ar gyfer anghenion anifeiliaid sy'n pori i gael maeth.

Roedd Mr Owen yn annog tyfwyr i gynllunio ymlaen llaw a gweithio gyda'r bobl iawn i osgoi unrhyw un o'r sialensiau sy'n gysylltiedig â thyfu betys porthiant.

*"Trafodwch gyda'r rhai sydd yn ei wneud yn barod hefyd, i fanteisio ar eu profiad"* dywedodd.



# Meincnodi Maetholion Grawn YEN

Mae'r Rhwydwaith Gwella Cynnyrch (YEN) yn cysylltu sefydliadau amaethyddol a ffermwyr sy'n ymdrechu i wella cynnyrch cynyddu gyda'r nod o gau'r bwch rhwng y cynnyrch presennol a'r potensial o ran cynnyrch.

Daeth yr angen am ddadansoddi grawn fel rhan o'r patrwm yn gynyddol amlwg gyda phrofi grawn o dros 900 sampl o ffermwyr YEN dros y pedair blynedd ddiwethaf yn datgelu bod 74% o gnydau grawn yn ddiffygiol o ran o leiaf un maetholyn. Mae hyn yn dynodi, er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o dyfwr, bod maethiad yn cyfyngu potensial llawn eu cynyddu.

Er y gall dadansoddi pridd ddynodi i ba raddau y mae P, K ac Mg ar gael, ac y gall dadansoddi dail ddatgelu prinder maetholion yn y fan a'r lle, mae dadansoddi grawn yn rhoi gwybodaeth a yw cnwd wedi cael digon o faetholion hanfodol ar hyd ei oes gyfan.

Dyna'r rheswm pam y bydd Canllaw Rheoli Maetholion AHDB (RB209) yn awr yn argymhell dadansoddi arferol ar rawn a deunyddiau eraill sy'n cael eu cynaeafu ochr yn ochr â dadansoddi arferol ar faetholion yn y pridd. Bydd hyn yn gwneud y Deyrnas Unedig yn wlad gyntaf i sylweddoli bod dadansoddi grawn yn rhoi amcangyfrif cywir o'r maetholion a dynnwyd i mewn, ond ei fod hefyd yn rhoi post mortem llawn a therfynol o lefelau'r cnwd o'r 12 maetholyn hanfodol i gyd.

Gyda gwell dealltwriaeth o allu eu cnwd i gymryd maeth i mewn, gall ffermwyr ac agronomegwyr dargedu maetholion (P a K yn arbennig) yn fwy cywir yn fuan, a bydd canlyniadau gwell wrth chwalu maetholion yn helpu i leihau costau ac effeithiau amgylcheddol.

Mewn pryd ar gyfer cynhaeaf 2020, lansiodd ADAS gynllun YEN newydd dan yr enw 'YEN Nutrition' i gefnogi'r rhai sy'n gobeithio gwella maethiad cynyddu tir â'r. Mae YEN Nutrition, sydd ar gael i bawb yn y Deyrnas Unedig a thramor, yn rhoi dadansoddiad grawn cynhwysfawr ar y 12 maetholyn hanfodol i'r cnwd ac yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan osod meincnod ar gyfer perfformiad maethol eu cynyddu mewn cymhariaeth â thyfwrwyr eraill. Trwy ei ddefnyddio ar y cyd â dadansoddiad pridd a dail, mae YEN Nutrition yn datgelu statws terfynol y cnwd, gan roi golwg i'r aelodau o lwyddiannau maethol y cnwd yn y pen draw, a'u galluogi i wneud y dewisiadau cywir i wella cynnyrch cynyddu yn y dyfodol, o gae i gae.

Anfonwyd samplau o rawn i gael dadansoddiad maetholion wrth gynaeafu yn 2020 o chwe chae ar safle arddangos Pantyderi. Er mwyn cynyddu cyfanswm y data a hwyluso meincnodi mewn cymhariaeth â chnydau a dyfir ar yr un pryd yn yr ardal, cymrwyd samplau o chwe chae grawn gan bum tyfwr grawn arall yn yr ardal, a elwir yn grŵp Sir Benfro.

Dadansoddwyd y grawn i roi lefelau'r 12 maetholyn hanfodol i gyd: nitrogen (N), potasiwm (K), ffosfforws (P), sylffwr (S), calsiwm (Ca), magnesiwm (Mg), manganis (Mn), sinc (Zn), copr (Cu), haearn (Fe), boron (B) a molybdwm (Mo).

Yna meincnodwyd y canlyniadau trwy'r adnodd Maeth Grawn YEN, ar gyfer y chwe fferm sy'n cymryd rhan i gychwyn, ac yna mewn cymhariaeth â samplau o rawn wedi eu cynaeafu yn genedlaethol.


Dengys y prif ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer cynhaeaf 2020:

- Y diffyg sy'n cael ei nodi yn fwyaf cyffredin yw ffosfforws
- Mae potasiwm yn llai diffygiol nag yn y blynyddoedd diwethaf
- Mae manganis yn ddiffygiol yn fwy cyffredin nag mewn blynyddoedd blaenorol

Dangosodd canlyniadau grŵp Sir Benfro:

- Bod y maethiad nitrogen yn gyffredinol yn rhy hael ac yn eithafol weithiau
- Dangosodd un fferm lefelau sylffwr isel ar draws yr holl gaeau a ddadansoddwyd tra'r oedd ffermydd eraill yn foddhaol o ran sylffwr
- Roedd manganis hefyd yn ymddangos yn isel ar y rhan fwyaf o'r ffermydd oedd yn tyfu barlys

## Diagram targed YEN Nutrition



Dylai'r lefelau fod o fewn y cylch coch

Bydd y wybodaeth hon yn werthfawr wrth helpu i ffurfio cynllun maetholion addas ar gyfer cynyddu grawn ar y ffermydd hyn ar gyfer y tymor nesaf, gan helpu i wella cynyddu, arbed costau diangen a chynnig deiliant amgylcheddol gwell.

Rhoddir adroddiad llawn ar y wefan gyda chanlyniadau'r grŵp yn cael eu meincnodi yn erbyn ffigyrau cenedlaethol a'u cymharu rhwng ffermydd, a chaeau ar yr un fferm; bydd y wybodaeth o gymorth i bennu gwell allbynnau ar gyfer maeth cynyddu grawn y flwyddyn nesaf.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle arddangos Pantyderi, ewch i: [llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd](http://llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd)



**Safle Ffocws:** Plas yn Iâl, Llandegla, Sir Ddinbych

**Swyddog Technegol:** Dafydd Owen

**Teitl y Prosiect:** Coedwigaeth gorchudd parhaol mewn coetir fferm

**Cyflwyniad:**

Fferm ddefaid 75 hectar (ha) yw Plas yn Iâl sy'n cynnwys 12.5ha o goetir o goed llydanddail cymysg yn bennaf (>90%) ac ychydig o larwydd a ffynidwydden. Mae'r coetir yn gyfuniad o goetir naturiol a choed wedi eu plannu gyda ffawydd, masarn ac ynn yn rhywogaethau amlycaf.

Prif nod y prosiect yw cyfuno creu incwm a gwella a chryfhau'r manteision amgylcheddol trwy gyflwyno'r arfer coedwrol o goedwigaeth gorchudd parhaol.

Coedwigaeth gorchudd parhaol yw pan fydd coed unigol yn cael eu torri i gynnal gorchudd coetir parhaol gan ganiatáu cynhyrchu coed masnachol, law yn llaw â bioamrywiaeth. Mae'r dull o ddethol coed unigol neu dorri ychydig yn creu canopi agored i gynyddu lefelau'r golau a all annog adnewyddiad naturiol neu gynnig cyfle i blannu rhagor o rywogaethau gwahanol a all gynyddu gallu'r coetir i wrthsefyll newid hinsawdd.

**Amcanion y Prosiect:**

Bydd y prosiect yn asesu'r rheolaeth hanesyddol a chyflwr y coed ac yn cynllunio'r trosglwyddiad i orchudd parhaol gan fonitro'r cynnydd trwy:

- Gynnal arolygon ar y tir a gyda drôn o'r coetir
- Dadansoddi data gan ddefnyddio model

brosesu i gynhyrchu cynllun rheoli gorchudd parhaol

- Pennu a fydd hyfywedd defnyddio drôn ar raddfa yn lleihau'r angen am arolygon tir
- Graddio a phrisio pren a dorri mewn cymhariaeth â chost ei dorri a'i dynnu o'r coetir.

Bydd y cynllun rheoli gorchudd parhaol yn cynnwys modelu a'r weledigaeth at y dyfodol ar gyfer y coetir. Bydd hyn yn cynnig templed i ffermwyr eraill sydd am ddilyn y dull rheoli gorchudd parhaol sy'n cyfrannu at reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol gan wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd busnes y fferm.

*"Rydym yn gobeithio dilyn y cynllun a rheoli'r coed yn gynaliadwy. Mae'n bwysig gwerthfawrogi a deall potensial coetir ar ffermydd yn hytrach na gweld y coed fel cyflenwad coed tân," dywed Huw Beech sy'n ffermio yn fferm Plas yn Iâl.*



Ffigwr 1. Coetir Plas yn Iâl cyn ei reoli.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle arddangos Plas yn Iâl, ewch i: [llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd](http://llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd)

Rheoli coetiroedd fferm er mwyn bioamrywiaeth

Geraint Jones, Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Coedwigaeth

Mae coetiroedd fferm yn ddylanwad pwysig ar gymeriad ein tirwedd a'r ddarpariaeth bioamrywiaeth yng Nghymru. Er mwyn cynnal manteision coed o'r fath ac i sicrhau a chryfhau ecosystemau coed i wrthsefyll nifer o broblemau gan gynnwys newid hinsawdd a'r plâu ac afiechydon sy'n dod i'r amlwg, mae'n bwysig i ni gydnabod yr angen am lefel addas o reolaeth.

Mae nifer o ffyrdd i wella eich cynefin coetir er budd bioamrywiaeth. Ond dylid canolbwyntio ar strwythur coetir fel prif amcan sy'n cynnwys nifer o nodweddion heb i unrhyw un fod yn bennaf. Bydd datblygu amrywiaeth strwythurol mewn coetiroedd yn cynhyrchu mosaig o gynefinoedd tra bydd cymysgedd amrywiol o rywogaethau o goed o wahanol oedrannau yn creu'r amrywiaeth mwyaf o rywogaethau y gall y coetir eu cynnal, gan fod rhywogaethau gwahanol wedi addasu i wahanol amodau amgylcheddol. Felly, mae'r nodweddion y dylid canolbwyntio arnynt yn cynnwys amrywiaeth strwythurol ar gyfer cynefinoedd allweddol gyda'r potensial i gefnogi amrywiaeth anferth o blanhigion, anifeiliaid a ffwng. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Haen y llawr: gweiriau, rhedyn, planhigion blodeuog a chen.
- Haen llwyni: y planhigion a'r llwyni sy'n gallu goddef cysgod a chyrraedd hyd at tua 5m o uchder.

- Isdyfiant: fel arfer mae hyn yn cynnwys coed sy'n tyfu'n isel a choed anaeddfed.
- Haen y canopi: coed aeddfed sydd o amrywiaeth o wahanol daldra.

**Mae nodweddion y coetir yn cynnwys:**

- Rhannau agored fel llennyrch nad oes coed aeddfed ynddyn nhw.
- Cynefin ymylol lle mae'r coetir yn cyffwrdd darn agored e.e. llwybrau, llennyrch neu dir agored.
- Mae prysg yn gynefin eithriadol o bwysig ac yn elfen ganolog o ddyluniad ymylon coetir.
- Rhannau gwlyb a goferau – mae gwarchod yr hydroleg presennol trwy osgoi amharu ac unrhyw ymyrraeth yn hanfodol.
- Dylid cadw pren marw trwy strwythur y coetir, gan gynnwys toriadau yn y canopi, coed marw sy'n dal ar eu traed ac wedi syrthio a choed wedi eu torri gan y gwynt.
- Mae coed hynafol yn flaenoriaeth a dylid eu diogelu am eu bod yn cynnal amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid gan gynnwys cen, bryffotau a ffwng sy'n cyflawni'r prosesau ecolegol hanfodol sy'n gadael i ecosystem y coetir ffynnu.

Bydd gwerth coetiroedd fferm bioamrywiol a'r gwasanaethau ecosystem niferus y maent yn eu darparu, sy'n cael eu cyflawni trwy reoli'n briodol, yn diogelu bioamrywiaeth ac yn gwella gwytnwch y coetir.

Cofiwch archebu eich lle ar y gweminar "Bioamrywiaeth ar ein ffermydd - beth yw'r stori?" ar 26 Ionawr am 19:30 trwy fynd i wefan Cyswllt Ffermio [llyw.cymru/cyswlltffermioidigwyddiadau](http://llyw.cymru/cyswlltffermioidigwyddiadau).

Bydd Dr Glenda Thomas, FWAG, yn cyflwyno prosiect i ddarparu archwiliadau bioamrywiaeth ar dri safle arddangos Cyswllt Ffermio ac yn trafod beth fydd yn cael ei arolygu a'r dewisiadau posibl ar gyfer creu gwelliannau i wella statws bioamrywiaeth y fferm.

## ADDASIADAU PRIDD CYNALIADWY

Addasiadau pridd yw deunyddiau sy'n cael eu hychwanegu at y pridd i wella ei strwythur, darparu maetholion a hyrwyddo tyfiant iach y planhigyn. Mae llawer o wahanol fathau o addasiadau pridd yn bodoli, ond, yn y prosiect dwy flynedd EIP Wales hwn, sy'n rhedeg hyd Fehefin 2022, bydd pedwar o ffermwyr/tyfwyr garddwriaethol profiadol o ganolbarth a de Cymru yn treialu tri addasiad pridd gwahanol i asesu eu heffaith ar dyfiant planhigion. Y tri addasiad yw:

1. Bio-ologsg gwellt y gweunydd
2. Deunydd dan anifeiliaid wedi ei gydgompostio â gwlân defaid (20% o wllân, 80% tail)
3. Compost deunydd dan anifeiliaid gyda bio-ologsg gwellt y gweunydd (20% bio-ologsg, 80% tail)

Cynhyrchir bio-ologsg trwy broses a elwir yn pyrolysis, sef coginio unrhyw ddeunydd organig ar dymheredd uchel gydag ychydig o ocsigen. Gall y bio-ologsg sy'n deillio o hynny fod mor uchel â 78% o garbon yn ogystal â bod ag ychydig o nitrogen, sylffwr, ffosfforws, potasiwm a mwynau eraill. Mae Tony Davies, un o'r pedwar ffermwr sy'n rhan o'r prosiect, sy'n ffermio yn Henfron yng Nghwm Elan, yn cynhyrchu bio-ologsg o wellt y gweunydd sy'n gorchuddio ardaloedd eang o fynyddoedd y Cambrian. Mae cynaeafu gwellt y gweunydd sydd wedi tyfu'n wyllt yn gwella cynhyrchedd amaethyddol y tir gan wella bioamrywiaeth y cynefin sy'n ei wneud yn ddeunydd perffaith ar gyfer cynhyrchu bio-ologsg.

Ychydig iawn o werth na defnydd sydd i wllân cynffonau defaid, ond wrth bydru mae'n



Tony Davies, Henfron, Elan Valley

gweithredu fel ffynhonnell nitrogen sy'n cael ei ryddhau yn araf, ynghyd ag elfennau hybrin eraill fel potasiwm, ffosfforws a haearn. Mae hyn yn gwneud gwlân cynffonau yn ddelfrydol ar gyfer compost oherwydd y nitrogen ychwanegol yn y baw a'r ysgarthion.

Tyfir amrywiaeth o wahanol lysiau a phlanhigion mewn plotiau ar bob safle gan ddefnyddio'r tri addasiad pridd gwahanol i weld eu heffaith ar dyfiant, iechyd, cynnyrch ac ansawdd.

### Nodau'r prosiect ydynt:

- Dangos a ellir gwella cynnyrch llysiau gyda dewisiadau gwahanol, ôl troed carbon isel, yn hytrach na gwrtaith anorganig
- Datblygu marchnad addas ar gyfer gwellt y gweunydd er mwyn annog ei glirio a gwella bioamrywiaeth yr ucheldir
- Datblygu dull o gynyddu'r swm o garbon sy'n cael ei storio mewn pridd
- Cynnig dewis gwahanol i gompost/cyflyrwypridd sy'n seiliedig ar fawn
- Datblygu marchnad ar gyfer gwlân cynffonau (nad oes defnydd na gwerth iddo ar hyn o bryd)

## FFERMIO CARBON NIWTRAL – Y LLWYBR AT 'SERO-NET'

Mae newid hinsawdd yn her sy'n esblygu gyda defnyddwyr a'r rhai yn y gadwyn gyflenwi yn weithredol yn y drafodaeth. Wrth chwilio am atebion, mae pwysau sylweddol a heriau yn cael eu cyfeirio at y ffermwyr. Mae polisïau a thargedau'r llywodraeth hefyd yn newid ac mae targedau gostwng nwyon tŷ gwydr yn awr wedi cael eu disodli gan darged 'sero-net' ar gyfer y Deyrnas Unedig erbyn 2050 a'r NFU wedi gosod targed o gyrraedd 'sero-net' mewn amaethyddiaeth erbyn 2040. Ond sut ydym ni'n mynd i gyrraedd yno? Beth yw 'sero-net' a beth mae'n ei olygu i ffermwyr Cymru?

### Nod y prosiect dwy flynedd hwn yw:

1. Cael gwell dealltwriaeth o beth yw 'sero-net' a beth mae'n ei olygu i ffermwyr Cymru
2. Creu gwaelodlin y gellir gweithredu mewn cymhariaeth â hi a'i mesur
3. Gwella'r dystiolaeth i greu naratif clir sy'n disgrifio'r rôl werthfawr y mae ffermio yn ei chwarae wrth wynebu'r her hinsawdd a'r blaenoriaethau amgylcheddol

Mae'r chwe ffermwr o ardal Aberhonddu sy'n rhan o'r prosiect yn cynrychioli amrywiaeth o systemau ffermio gan gynnwys cynhyrchu cnydau, llaeth, biff a defaid. Byddant yn gweithio'n glos gyda Phrifysgol Bangor a Forest Research i asesu eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr a storio carbon i bennu'r sefyllfa bresennol (gwaelodlin) yng nghyswllt targedau 'sero-net'.



Bydd y data a gesglir ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ffermydd yn cynnwys:

- Niferoedd da byw, rheolaeth a mewnbwn porthiant
- Gwybodaeth am reoli maetholion yn ymwneud â chwalu gwrtaith a thail.
- Gwybodaeth yn ymwneud â mewnbwnau eraill fel tanwydd, trydan, calch a deunydd dan anifeiliaid

Bydd y data a gesglir ar storio nwyon tŷ gwydr ar ffermydd yn canolbwyntio ar stoc carbon uwch ben y ddaear a dan ddaear:

- Stoc Carbon Organig Pridd a chyfnwedd stoc wedi ei bennu trwy samplio pridd yn y caeau
- Stoc carbon ar wyneb y ddaear fel gwrychoedd a choetiroedd
- Asesu'r cyfleoedd ar gyfer crynhoi biomas pren fel gadael gwrychoedd heb eu torri, a hefyd asesu dewisiadau ar gyfer rheoli pren wedi ei gynaeafu fel creu sglodion ar gyfer biomas, compost neu ddeunydd gorwedd.

Gobeithio y bydd y prosiect hwn yn rhoi dealltwriaeth well i ffermwyr o gydbwysedd carbon fferm fasnachol a beth ellir ei wneud mewn amaethyddiaeth i gyfrannu tuag at y targed 'sero-net'.

Gwrandwch ar y podllediad **'Pennod 30 - Ffermio carbon niwtral – y llwybr at 'sero-net'** ar wefan Cyswllt Ffermio.

# Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.

## Llygredd aer o amaethyddiaeth

Dr Will Stiles o'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn disgrifio sut y gall amaethyddiaeth, yn ogystal â diwydiannau eraill, gyfrannu at lygredd aer. Yn Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bolisi Aer Glân Cymru: Awyr Iach, Cymru Iach. Mae gan amaethyddiaeth rôl bwysig wrth helpu i wella ansawdd aer ond mae angen ymdrech ar y cyd gan bob diwydiant fel y mae Dr Stiles yn esbonio.

Ar hyn o bryd llygredd aer yw'r un risg amgylcheddol fwyaf i iechyd trwy'r byd. Mae lefelau presennol y llygredd aer yng Nghymru yn risg fawr i iechyd, y mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried ei fod yn ail i ysmegu yn unig o ran effaith.


Caiff llygredd aer ei allyrru gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys diwydiant, cludiant, cynhyrchu ynni ac amaethyddiaeth. Mae'r deunyddiau sy'n cyfrannu at lygredd aer yn amrywiol a gallant ddeillio o amrywiaeth o ffynonellau naturiol a rhai o wneuthuriad dyn. Gall llygryddion aer gael eu ffurfio hefyd yn yr atmosffer ar ôl adwaith gemegol rhwng deunyddiau llygrol cynradd eraill i ffurfio llygryddion eilaidd, gan gynnwys gronynnau. Mae'r ffynonellau llygredd aer naturiol yn cynnwys llwch neu ronynnau pridd sy'n cael eu chwythu gan y gwynt, pail, halen o'r môr ac eraill. Yn nodweddiadol mae'r ffynonellau a gynhyrchir gan bobl yn allyriadau o weithgareddau fel llosgi tanwydd. O ran amaethyddiaeth, y prif gyfraniad at lygredd aer yw trwy allyrru amonia.

Daw amonia wrth i wrea dorri i lawr ac anweddu. Daw'r rhan fwyaf o allyriadau amonia o ran amaethyddiaeth yng Nghymru o ganlyniad i reoli da byw neu ddefnyddio gwrtait. Y ffynhonnell fwyaf yng Nghymru yw rheolaeth ar dail gwartheg, sy'n cyfrannu 41% o allyriadau amaethyddol. Mae'r ffynonellau amonia allweddol eraill yn cynnwys tail a roddir ar bridd (26.8%), ysgarthion anifeiliaid sy'n pori (14.5%), a'r defnydd o wrtaith anorganig (10.2%).


Mae'r allyriadau amonia o weithgareddau amaethyddol yn codi nifer o heriau o ran effaith amgylcheddol. Wrth ei allyrru fel nwy, gall amonia deithio pellter mawr a gall arwain at effeithiau amgylcheddol amrywiol gan gynnwys gorfaethu, asideiddio a throï'n wenwynig yn uniongyrchol. Yn ychwanegol, pan fydd yn yr atmosffer, gall amonia gyfuno â deunyddiau eraill i ddod yn ronynnau eilaidd, sydd yn llygrydd aer pwysig gyda'r potensial i niweidio iechyd a llesiant pobl yn ddifrifol.

Mae gronynnau eilaidd yn ffurfio pan fydd yr allyriadau llygrol o wahanol ffynonellau, fel diwydiant a thrafnidiaeth, yn cyfuno i ffurfio erosolau anorganig. Er enghraifft, gall amonia o amaethyddiaeth gyfuno gyda deunyddiau eraill i ffurfio cyfansoddion amonia, gan gynnwys sylffad amonia ( $(\text{NH}_4)_2\text{SO}_4$ ), deusylffad amonia ( $\text{NH}_4\text{HSO}_4$ ) ac nitrad amonia ( $\text{NH}_4\text{NO}_3$ ). Pan fyddant yn y cyflwr hwn, gall y deunydd yma dreiddio yn ddwfn i'r ysgyfaint ac achosi amrywiaeth o broblemau, gan gynnwys salwch resbiradol a chardiofasgwlaidd a gall fod yn angheuol.

Felly, bydd lleihau allyrru amonia yn nod allweddol i amaethyddiaeth Cymru er mwyn lleihau llygredd aer, a fydd yn lleihau'r effaith ar iechyd dynol, a diraddio amgylcheddol.



# Rhaglen mentro yn dathlu pum mlynedd o gyfateb ffermwyr y dyfodol â thirfeddianwyr



Mae'r rhaglen Mentro yn nodi ei phumed pen-blwydd gyda dull newydd gan fod y cyfleoedd ffermio yn awr yn cael eu hysbysebu ar y wefan, gan ddod yn fwy hygyrch a gwella'r broses ymgeisio i ddarpar newydd-ddyfodiaid. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael yn amrywiol ac yn cynnig rhywbeth i'r newydd-ddyfodiad di-brofiad a'r entrepreneur amaethyddol mwy mentrus. Ni fydd raid i 'Geiswyr' cyfle lenwi proffil Mentro bellach i weld y proffiliau tirfeddianwyr a byddant yn awr yn gallu ymgeisio am gyfleoedd yn uniongyrchol, fel y byddent am swydd newydd.

Ers ei lansio, mae Mentro wedi sefydlu 36 o fentrau ar y cyd newydd ac mae 88 o unigolion eraill wedi eu cyfateb ac yn barod i ddatblygu cytundebau.

Cynlluniwyd y rhaglen yn wreiddiol i gyfateb ffermwyr a thirfeddianwyr sydd am gamu yn ôl o'r diwydiant a'u cyfateb â newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio. Mae'n arwain pobl ar y ddwy ochr trwy'r camau allweddol sy'n ofynnol i ddod o hyd i bartner busnes posibl. Mae'r pecyn cefnogaeth yn cynnig gwasanaeth cyfateb, mentora, cynllunio busnes a chynghor cyfreithiol i roi cyfarwyddyd ar bob cam wrth sefydlu menter ar y cyd.

Yn ychwanegol at gynnig yr help llaw hwnnw i gamu i mewn i amaethyddiaeth ar gyfer y rhai sydd am droi at ffermio, gall y rhaglen hefyd helpu i ymdrin â chyfyng-gyngor o ran olyniaeth mewn busnesau ffermio a chynnig cyllid i ddatblygu trefniadau ffermio cydweithredol er mwyn galluogi trosglwyddiad mwy llyfn a thecach i'r genhedlaeth nesaf.

Gall hefyd helpu i recriwtio staff a sicrhau cyfleoedd gwaith, sydd yn ei dro yn ymdrin â bylchau o ran sgiliau, yn cynyddu profiad ac yn creu cerrig camu at gyfleoedd mwy.

Mae'r llyfryn Mentro, sydd ar gael fel copi caled ac ar-lein yn rhoi gwybodaeth am y dewisiadau amrywiol sydd ar gael. Mae'n trafod contractau cyflogaeth sy'n gadael i'r tirfeddianwr gadw rheolaeth tra bydd y newydd-ddyfodiad yn cael profiad; trefniadau rhannu rheolaeth fel ffermio cyfrannol a all adael i'r tirfeddianwr gamu'n ôl o ran y dyletswyddau o ddydd i ddydd; trwodd i osod yn y tymor hir a thenantiaethau sy'n cynnig rhyddid i'r newydd-ddyfodiaid i ddatblygu eu systemau ffermio eu hunain. Maent i gyd yn amrywiadau ar fentrau ar y cyd a gellir eu cefnogi trwy'r rhaglen Mentro.

Gan weithio gyda'ch cynghorydd achrededig, mae cyngor cynllunio busnes a chyfarwyddyd cyfreithiol wedi ei ariannu yn llawn hyd at 1,500 Ewro ar gael ar gyfer y ddwy ochr sy'n rhan o'r cytundeb.

Mae Einir Davies, y rheolwr rhaglen Mentro, yn falch gyda llwyddiannau'r rhaglen ac mae'n dweud, "mae'r cyllid sydd ar gael i gynghori ffermwyr am y trefniant mwyaf addas yn rhoi tawelwch meddwl i'r ddwy ochr bod eu cynlluniau yn hyfryd, realistig a theg. Mae hyn yn helpu i ddatblygu perthynas waith iach a chyfathrebu effeithiol, sy'n allweddol".

Dylai newydd-ddyfodiaid brwdfrydig sy'n chwilio am gyfle i ffermio ymweld â gwefan Cyswllt Ffermio i bori trwy'r cyfleoedd Mentro ac ymgeisio. Yn y cyfamser, dylai tirfeddianwyr

sydd am drafod eu dewisiadau wrth iddynt gychwyn camu yn ôl o ffermio llawn amser gysylltu â'r swyddog Mentro yn eu hardal –


**Gwydion Owen**, Swyddog Gogledd Cymru -  
07498 055 416

gwydion.owen@menterabusnes.co.uk

neu

**Delyth Jones**, Swyddog De Cymru -  
07985 155 670

delyth.jones@menterabusnes.co.uk



- Ceiswyr**  
(wedi ymuno'n llawn yn unig)
- Darparwyr**  
(wedi ymuno'n llawn yn unig)
- Parau**  
(ar waith ac wedi cwblhau)

## Blwyddyn newydd...sgiliau newydd? Dysgwch sut i leihau'r risg o ddamweiniau ar y fferm

O flwyddyn i flwyddyn rydym yn clywed am ddamweiniau fferm sy'n newid bywyd ac yn anghauol weithiau. Mae i bob un ohonynt ganlyniadau trychinebus i bawb sy'n cael damwain a'u teuluoedd.

### YMGEISIWCH AM HYFFORDDIANT DIOGELWCH FFERM GYDA CHYMHORTHDAL

Mae'r cyfnod ymgeisio yn awr **AR AGOR** hyd **17:00 Dydd Gwener, 26 Chwefror 2021**

**Cyrsiau peiriannau ac offer – wedi eu hariannu 40%**

Bydd ein hyfforddiant yn eich helpu i gadw'n ddiogel wrth i chi yrru neu drin...

- Tractorau • Cerbydau tir garw gan gynnwys beiciau cwad
- Peiriannau codi telesgopig • Llif gadwyn

**Cyrsiau lechyd a Diogelwch – wedi eu hariannu 80%**

Dysgwch sut i gymryd gwell gofal ohonoch eich hun, aelodau o'r teulu a gweithwyr.

**Mwy na 70 cwrs byr** i ddewis o'u plith yn cynnwys...

- Cymorth cyntaf • Asesiadau risg ar y fferm • Gweithio'n ddiogel ar uchder
- Trin da byw • Trin sylweddau peryglus ar y fferm
- Paratoi bwyd yn ddiogel • Paratoi ar gyfer arolwg iechyd a diogelwch

**Sylwer:** Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer hyfforddiant gyda chymhorthdal, rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhaid i chi wneud hynny cyn 17:00 ddydd Llun 22 Chwefror 2021.



Am ragor o wybodaeth am holl hyfforddiant Cyswllt Ffermio, gan gynnwys rhestr o'r holl gyrsiau sydd ar gael a'r darparwyr hyfforddiant, ewch i [llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant](http://llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant).

Fel arall, ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth ar **08456 000 813** neu cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol.

## Gadewch i ni siarad busnes... paratowch NAWR ar gyfer 2021

Ydych chi'n barod i fanteisio ar bob cyfle a wynebu'r heriau sydd o'ch blaen? Bydd y cyngor cymorthdaledig, cyfrinachol sydd ar gael drwy Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio yn eich helpu i baratoi eich busnes ar gyfer y dyfodol. Gall eich helpu i sicrhau bod eich busnes yn barod i addasu a gweithio ar ei fwyaf effeithlon a sicrhau'r lefelau gorau o elw ymhob maes o'i waith.

"Bydd y cyngor arbenigol a geisiwch heddiw yn eich helpu i baratoi eich busnes ar gyfer yfory," meddai Eirwen Williams, cyfarwyddwr rhaglenni gwledig gyda Menter a Busnes, sy'n darparu Cyswllt Ffermio ar ran Llywodraeth Cymru.

Wrth i'r diwydiannau fferm a choedwigaeth fynd i'r afael â goblygiadau Brexit, Covid-19 a newidiadau i Gynllun y Taliad Sylfaenol, mae Cyswllt Ffermio'n annog busnesau i wneud cais i'r Gwasanaeth Cyngori am gymorth er mwyn sicrhau eu bod yn paratoi'n dda.

Mae'r cymorth wedi ei rannu'n fras yn gyngor busnes a chynghor technegol a gall busnesau

cofrestredig sy'n gymwys ofyn am adolygiad llawn o'u busnes a chanfod meysydd i'w gwella, neu ganolbwyntio ar feysydd penodol fel dadansoddiad pridd a phorthiant, arweiniad ynglŷn â da byw, bioamrywiaeth neu ffermio'n fwy 'gwyrd'.

"Os nad ydych chi'n siŵr eich bod yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael i chi a bod eich busnes yn ddigon hyblyg i addasu'n gyflym i'r newidiadau a ddisgwyliwn yn gyffredinol, gwnewch gais yn awr," yw cyngor Mrs Williams.

"Cyn belled â bod gennych gynllun busnes cadarn, wedi'i ddiweddarau, byddwch yn gwybod beth yw eich nodau a pha gamau y bydd raid i chi eu cymryd o bosib i sicrhau bod eich busnes yn parhau'n broffidiol ac yn gynaliadwy, beth bynnag fydd y newidiadau a ddaw."

"Wrth i ni symud i mewn i'r Flwyddyn Newydd, efallai na fydd gan lawer o fusnesau bellach yr opsiwn o wneud pethau fel y maen nhw wedi eu gwneud nhw erioed; bydd ffyrdd newydd o weithredu a phwysau economaidd newydd."

I bori drwy'r categorïau o gyngor sydd ar gael a'r rhestr o gwmnïau ymgynghori sy'n gymeradwy gan y Gwasanaeth Cyngori, ewch i [www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio).



**Mae Jonathan Scott yn cadw buches o 270 o wartheg godro ar y daliad 440 erw y mae'n denant arno ger Wrecsam.**

"Mae'r cynllun busnes wedi rhoi nodau clir i ni weithio tuag atynt. Rydyn ni'n deall ein sefyllfa bresennol ac yn gwybod lle bydd angen i ni fod mewn pum mlynedd. Rydyn ni'n dal i weithio ar y broses hon ond rydyn ni mewn sefyllfa llawer cryfach i wynebu'r dyfodol yn optimistaidd."

# Hyfforddiant TG wedi ei ariannu'n llawn

## ...angen help llaw?

### I DDECHREUWYR LLWYR:

Cwrs hyfforddi chwe wythnos, yn cael ei ddarparu trwy sesiwn dwy awr yr wythnos, wedi ei ddylunio i roi sgiliau TG sylfaenol y gallwch eu defnyddio yn eich busnes. Yn cael eu darparu ledled Cymru ar lefel a chyflymder addas i chi.

*O ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, rydym hefyd yn cynnal cwrs Cyfrifiaduron i Ddechreuwyd fel cwrs wedi'i ariannu'n llawn i'w gwblhau gartref, lle gallwch weithio drwy lyfryn gwaith o gysur eich cartref, ar gyflymder ac amser sy'n addas i chi, gyda chefnogaeth dros y ffôn gan eich coleg amaethyddol lleol.*

### TIWTORA UN I UN:

Hyd at ddwy sesiwn diwtora trwy alwad ffôn, ar-lein neu ddigidol dwy awr wedi eu hariannu'n llawn gan diwtoriaid TG arbenigol. Yr hyfforddiant yn cael ei addasu i'ch gofynion, gan ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth.

**Ydych chi eisiau gwella eich gwybodaeth am daenlenni? Os felly, mae gennym gwrs Microsoft Excel ar gael!**

Am ragor o wybodaeth, ewch i  
**[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)** neu  
cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth  
Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**

